HEDDLU TRAFNIDIAETH PRYDEINIG

CYNLLUN IAITH GYMRAEG BWRIEDIG

RHAGARWEINIAD

Yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig (HTP) yw'r gwasanaeth heddlu ar gyfer rheilffyrdd Prydain Fawr a'n gwaith ni yw plismona'r rheilffyrdd mor effeithiol â phosibl. Mae'r HTP yn unigryw oherwydd mae'n sefydliad arbenigol sy'n darparu gwasanaeth ymrwymedig o fewn amgylchedd cludiant rheilffyrdd sy'n darparu her arbennig.

Mae'r boblogaeth a wasanaethir gan yr HTP yn bennaf yn rhai sy'n defnyddio, yn gweithio ar ac yn rheoli systemau rheilffordd Prydain, er bod elfen bwysig o'r gwasanaeth i'r gymuned ehangach. Mae'r boblogaeth hon yn ymestyn o ogledd Yr Alban i'r West Country, ac yn cynnwys Cymru a Rheilffordd Danddaearol Llundain, ac mae'n symud yn gyson ar hyd mwy na 10,000 o filltiroedd o lwybrau a 2,500 o orsafoedd, neu'n gweithio yn y miloedd o leiniau aros, iardiau, depos, swyddfeydd ac eiddo eraill. Mae hon yn her unigryw o ran plismona.

Nid oes gan yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig unrhyw gyfleusterau dalfa nac Ystafelloedd Rheoli yn Sector Cymru.

Ymagwedd Partneriaeth

Hanfod plismona yw trwy amrediad o bartneriaethau ac mae'r HTP yn parhau i adeiladu perthnasau hanfodol gyda'r cyhoedd sy'n teithio, rheolwyr y rheilffyrdd a'u staff – yr holl gyfranogion allweddol yn y diwydiant rheilffyrdd. Hefyd, mae'r heddlu yn ymlid ei amcanion plismona (sydd wedi eu cyhoeddi yn ei Gynllun Plismona Blynyddol) mewn partneriaethau â nifer o sefydliadau a grwpiau eraill.

Awdurdod yr HTP sy'n gyfrifol yn gyfreithiol am gynnal heddlu digonol ac effeithlon.

Mae'r Heddlu yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaethau plismona craidd er mwyn cynnal cyfraith a threfn ac mae hyn yn cynnwys gwasanaethau a ddarperir mewn perthynas â diogelwch cymunedol, gwrthderfysgaeth, atal a datrys troseddau, cadw Heddwch y Frenhines, dod â throseddwyr gerbron y llysoedd a darparu cefnogaeth i ddioddefwyr a thystion troseddau.

Yn y rolau eang hyn, mae ymgynghoriad eang yn digwydd er mwyn cyflawni gwasanaeth sy'n diwallu anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid. Mae grwpiau

cyswllt Cwsmeriaid wedi cael eu sefydlu yn y saith ardal heddlu gweithredol o fewn yr Heddlu. Mae ymgynghori â'r gymuned leol yn dasg hanfodol ar gyfer yr holl staff.

Plismona Gweithredol

Mae'r HTP ym Mhrydain Fawr wedi ei drefnu yn saith Ardal weithredol a reolir gan Bennaeth Ardal.

Caiff Cymru ei phlismona gan Ardal Cymru a Gorllewin Lloegr. Mae'r Ardal wedi ei rhannu yn bedwar sector, un o'r rhain yw Sector Cymru.

Mae naw gorsaf HTP yn Sector Cymru:-

Bangor
Caerdydd
Caerfyrddin
Machynlleth
Casnewydd
Pontypridd
Y Rhyl
Yr Amwythig
Abertawe

RHAGAIR

Ein Gweledigaeth dros y 3 blynedd nesaf -

Strategaeth Iaith Gymraeg Cymdeithas y Prif Swyddogion Heddlu

Mae ein dull strategol o ymdrin â'r defnydd o Gymraeg a Saesneg yn seiliedig ar yr **egwyddorion** a ganlyn:

- Statws cydradd i'r Gymraeg a'r Saesneg
- Ein nod yw bod yn sefydliad dwyieithog

I gefnogi'r egwyddorion hyn, bydd yr HTP (Sector Cymru) yn mabwysiadu'r **tactegau** a ganlyn:

- *Cynllun Iaith Gymraeg arloesol*
- *Mwy o ddefnydd o'r Gymraeg mewn busnes*
- *Pob swyddog i fod â sgiliau sylfaenol mewn Cymraeg (lefel 1)*
- *Cyfle i bawb fynd ar gwrs hyfforddi iaith Gymraeg addas*
- *Gweithio tuag at sicrhau dewis o ran iaith mewn amgylchiadau cyhoeddus sylfaenol.*
- *Dynodi swyddi lle mae angen lefel benodol o ran gallu yn y Gymraeg.*

Yn ystod y 3 blynedd nesaf, bydd yr HTP (Sector Cymru) yn anelu tuag at

- Weithredu fel sefydliad dwyieithog

- Cynyddu'r nifer o staff sy'n gallu siarad neu ysgrifennu Cymraeg yn hyderus a'u hannog i ddefnyddio'u sgiliau'n amlach er mwyn cyfrannu tuag at sicrhau dewis iaith i'r cyhoedd.

- Codi ymwybyddiaeth staff cyfredol a staff newydd o ran ymrwymiad yr heddlu i gynnig gwasanaeth dwyieithog.

- Gweithio tuag at ddenu mwy o geisiadau oddi wrth siaradwyr Cymraeg a dysgwyr o gymunedau Cymraeg i ymuno â'r heddlu fel swyddogion neu staff heddlu. Rhan o hyn fyddai meithrin mwy o gyswllt gyda siaradwyr Cymraeg a gyda chynrychiolwyr amrywiol o grwpiau iaith Gymraeg.

- Datblygu strategaeth a fyddai'n annog pob aelod newydd o staff Sector Cymru i ddangos gallu o ran sgiliau cwrteisi sylfaenol yn yr iaith Gymraeg (Lefel 1) cyn ymuno, yn ogystal â chanolbwyntio ar staff presennol sydd mewn cyswllt uniongyrchol gyda'r cyhoedd.

- Sicrhau bod trafodion a gweithdrefnau mewnol yn cydnabod yn llawn ac yn ystyried gallu yn y Gymraeg fel sgil, ochr yn ochr â sgiliau angenrheidiol eraill.

- Ceisio cyfleoedd i hyrwyddo a datblygu'r defnydd o'r Gymraeg mewn gwahanol drafodion a gweithdrefnau gyda'r Swyddfa Gartref, HMIC a heddluoedd eraill Cymru.

t

- Manteisio i'r eithaf ar bob cyfle i ddiffinio ei ymrwymiad i'r iaith Gymraeg fel rhan o'i ymdrech i gydnabod materion Hil ac Amrywiaeth yng Nghymru.

<u>Cyflwyniad</u>

Cynhyrchir y Cynllun hwn yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Derbyniodd Cynllun Iaith Gymraeg gwreiddiol yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg dan adran 14(1) y Ddeddf ar 24 Gorffennaf 1998. Mae'r ddogfen hon yn fersiwn diwygiedig o'r Cynllun hwnnw.

Mae'r HTP (Sector Cymru) wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae'r cynllun hwn yn amlinellu sut y bydd

yr HTP yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

Mae bob aelod o staff (Sector Cymru) yn gyfrifol am lwyddiant y Cynllun hwn.

CYNLLUNIO A DARPARU GWASANAETHAU

Polisïau a Mentrau Newydd

Bydd Cymdeithas Prif Swyddogion Heddlu yn sicrhau bod egwyddorion cydraddoldeb iaith yn cael eu hystyried ym mhob agwedd ar waith yr Heddlu a bod Ardaloedd ac Adrannau yn gweithredu yn unol â'r Cynllun.

Bydd yr holl gynlluniau, mentrau neu bolisïau newydd a fabwysiedir gan yr Heddlu yn cydymffurfio â gofynion y polisi hwn. Pan fydd polisïau sydd eisoes yn bodoli yn cael eu hadolygu bob blwyddyn, byddwn yn manteisio ar y cyfle i ystyried yn llawn anghenion siaradwyr Cymraeg a disgwyliadau'r polisi hwn.

Mae cyfeiriadau yn y polisi hwn at gynlluniau, mentrau a pholisïau Heddlu perthnasol eraill. Hefyd, bydd yr Heddlu yn asesu canlyniadau ieithyddol tebygol unrhyw bolisi neu fenter newydd yn ystod y cyfnod paratoi ac wrth fonitro'r polisi neu'r fenter

Wrth adolygu a chyflwyno polisïau a mentrau newydd, gall yr HTP:

Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn ei wasanaethau yn Sector Cymru a symud tuag at gyflawni amcanion y Cynllun hwn. Bydd pob cyfle yn cael ei gymryd i symud yn agosach tuag at gyflawni'r egwyddorion cydraddoldeb. Mae'r egwyddorion sydd wedi eu disgrifio yn y Cynllun hwn yn berthnasol i bob polisi a menter newydd a weithredir gan yr Heddlu neu ar ran yr Heddlu.

Gweithredu

i) Bydd Penaethiaid Sector yn sicrhau bod holl waith yr Heddlu yn cydymffurfio'n llawn â gofynion y Cynllun hwn a Strategaeth Iaith ACPO.

ii) Bydd perchenogion polisïau newydd a pherchenogion polisïau sy'n cael eu hadolygu'n flynyddol yn cynnwys cymalau perthnasol yn y polisïau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn â gofynion y Cynllun hwn a Strategaeth Iaith ACPO. Cyfrifoldeb perchenogion y polisïau fydd monitro i sicrhau eu bod yn cydymffurfio gyda'r Cynllun Iaith.

iii) Bydd rheolwyr prosiect yn ystyried gofynion aelodau o'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg wrth greu brîff ar gyfer prosiect. Bydd cymalau priodol yn cael eu cynnwys ym manylion y prosiect er mwyn sicrhau

Cydlynydd Iaith Gymraeg yr Heddlu fydd yn gyfrifol yn uniongyrchol am hyrwyddo materion iaith Gymraeg ac am fonitro cydymffurfiad â'r Cynllun Iaith Gymraeg o ddydd i ddydd yn Sector Cymru. ACPO fydd yn gyfrifol am adnabod angen i wneud unrhyw newid i'r Cynllun ac am ddarparu'r adroddiadau angenrheidiol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Cydlynydd Iaith Gymraeg yr Heddlu fydd y pwynt cyswllt ar gyfer ymholiadau ynglŷn â'r Cynllun a'i weithrediad.

Os bydd unrhyw bolisïau neu fentrau newydd a allai effeithio ar Gynllun Iaith Gymraeg yr Heddlu neu ar Gynllun sefydliad arall, yna byddwn yn ymgynghori â Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Ni fydd y Cynllun hwn yn newid heb i'r Bwrdd gytuno i hynny.

<u>Gweithredu</u>

i) Bydd Pennaeth Sector yn enwi aelod o staff i weithredu fel Cydlynydd Iaith ar faterion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg. Bydd y cydlynydd yn gyfrifol am gynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn y gwahanol dimau ac am gwblhau'r ffurflenni monitro lleol.

ii) Bydd yr Heddlu'n sicrhau bod copi o'r Cynllun yn ogystal â'r canllawiau gweithredu ar gael ar Fewnrwyd yr Heddlu.

DARPARU GWASANAETHAU

Wrth ddarparu gwasanaeth plismona, rydym yn cydnabod fod gan y cyhoedd sy'n siarad Cymraeg sy'n dod i gysylltiad â'r heddlu hawl i dderbyn gwasanaeth yn Gymraeg. Ond, mae'n rhaid i ni sylweddoli nad yw pob aelod o staff yn gallu siarad Cymraeg ac felly, dan rhai amgylchiadau, ni allwn ddarparu gwasanaeth dwyieithog llawn wrth ymdrin ag:-

a) Achosion brys neu ddigwyddiadau difrifol neu:

b) Lle byddai hyn yn effeithio ar effeithlonrwydd gwaith yr heddlu, gan wneud y lefel yn annerbyniol e.e. gwaith cyfreithiol penodol fel anadledyddion, stopio/chwilio, etc.

Os nad oes aelod o staff sy'n gallu siarad Cymraeg ar gael yn syth, bydd mesurau mewn lle i gysylltu gydag aelod Cymraeg o staff. Byddwn yn cysylltu'n ôl gyda'r aelod o'r cyhoedd ac yn darparu'r gwasanaeth perthnasol.

Pan fyddwn yn ymwybodol o'r dechrau fod aelod o'r cyhoedd eisiau gwasanaeth Cymraeg, bydd hyn yn cael ei ddarparu, ond efallai na fydd hyn yn bosibl mewn argyfwng.

Mewn ymgais i ddarparu gwasanaeth cynhwysfawr, byddwn yn canfod pwy yn y Sector sy'n gallu siarad Cymraeg.

Bydd yr holl staff yn gyfarwydd â'r mesurau sydd mewn lle i weithredu darpariaethau'r polisi hwn.

Gweithredu

(i) Bydd cydlynydd iaith Sector Cymru yn sicrhau bod rhestr gyfredol o siaradwyr Cymraeg ar gael ar gyfer defnydd mewnol er mwyn ymateb i geisiadau am wasanaeth iaith Gymraeg, a bod staff yn gwybod sut i gael cefnogaeth pan fo angen hynny arnynt.

Mewn gwirionedd, mae gallu'r heddlu i ddarparu gwasanaeth i'r cyhoedd yn eu dewis iaith yn dibynnu ar allu a hyder ei staff i ddefnyddio'u sgiliau iaith Gymraeg yn gyhoeddus. Un o amcanion Strategaeth Iaith ACPO yw 'Mwy o Ddefnydd o'r Gymraeg mewn Busnes'. Y nod yw creu ethos dwyieithog yn y gweithle a fydd yn rhoi mwy o hyder i staff ymarfer a defnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd.

Gweithredu

i) Cydlynydd iaith Sector Cymru fydd yn gyfrifol am hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle lle mae hyn yn ymarferol.

i) Mae gan y Gymraeg a'r Saesneg statws cyfartal yn yr Heddlu. Caiff staff eu hannog i ddefnyddio Cymraeg neu Saesneg yn y gwaith wrth gyflawni eu dyletswyddau cyn belled nad ydi hynny yn amharu ar effeithlonrwydd cyfathrebu mewnol.

ii) Yn unol ag egwyddorion ACPO, bydd siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn cael eu hannog a'u cefnogi i ddefnyddio mwy ar eu sgiliau siarad ac ysgrifennu Cymraeg yn y gwaith.

SAFON GWASANAETHAU CYMRAEG

Mae gan aelodau'r cyhoedd hawl i gyfathrebu gyda'r Heddlu yn Gymraeg neu'n Saesneg, pa bynnag iaith a ddewisir ganddynt.

Wrth ymdrin â phartïon eraill sy'n gyfrifol am weinyddu'r system Cyfiawnder Troseddol h.y. y Llysoedd, y gwasanaeth Prawf, y Gwasanaeth Carchardai

a Gwasanaeth Erlyn y Goron, bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau bod gweithdrefnau yn cael eu mabwysiadu sy'n amlygu hawl unigolyn i ddewis iaith.

Gwasanaethau Cyfieithu

Nod yr Heddlu yw darparu gwasanaeth cyson a chytbwys o'r un safon yn y ddwy iaith wrth ddarparu gwasanaeth i'r cyhoedd, yn unol â deddfwriaeth gyfredol.

Mae gwaith cyfieithu yn sgil arbenigol ac ni all pob gweithiwr dwyieithog gyfieithu. Ar hyn o bryd, caiff gwasanaethau cyfieithu eu darparu gan ddarparwyr allanol a benodir gan Bencadlys yr Heddlu.

Bydd yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn disgwyl i unrhyw drydydd parti a gyflogir ar ei ran i ddarparu gwasanaeth i'r cyhoedd yng Nghymru weithredu yn unol ag amodau'r Cynllun. Bydd y manylion manwl-gywir yn cael eu hamlinellu yn y dogfennau contract. Rhaid i unrhyw gyfieithwyr trydydd parti fod yn aelodau o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru.

Gweithredu

i) Dylid anfon unrhyw lyfrynnau, taflenni neu ddefnyddiau cyhoeddusrwydd swyddogol i Bencadlys yr Heddlu i'w cyfieithu.

ii) Bydd siaradwyr Cymraeg yn yr heddlu yn cael eu hannog i ddrafftio dogfennau / llythyrau ayb yn Gymraeg yn y lle cyntaf.

iii) Bydd egwyddorion 'Cymraeg Clir' yn cael eu mabwysiadu wrth gynhyrchu unrhyw waith ysgrifenedig.

Bydd staff sy'n siarad Cymraeg a dysgwyr yn cael eu hannog i wisgo bathodyn bychan sy'n dangos i'r cyhoedd eu bod yn siarad Cymraeg a Saesneg, neu eu bod yn dysgu Cymraeg, yn unol â Gweithdrefnau Safonol presennol yr Heddlu ar Wisg ac Ymddangosiad.

Wrth gynllunio a chyflwyno unrhyw wasanaethau ar gyfer y cyhoedd, bydd yr heddlu yn ystyried natur ieithyddol yr ardal, cymunedau a sefydliadau addysgol. Bydd yr wybodaeth yn cael ei chofnodi a'i hadolygu / diweddaru wrth gyflwyno'r wybodaeth i swyddogion lleol newydd.

Bydd gallu'r heddlu neu unrhyw drydydd parti arall a gyflogir ar ei ran neu gan unrhyw bartner i ddarparu darpariaeth o safon yn yr iaith o ddewis yn cael ei fonitro'n rheolaidd drwy gyfrwng dangosyddion perfformiad iaith Gymraeg (atodiad B).

Gweithredu

i) Y Pennaeth Sector fydd yn gyfrifol am sicrhau bod gwasanaeth o safon gyfartal yn cael ei ddarparu yn y ddwy iaith.

ii) Bydd cydlynydd iaith Gymraeg y Sector yn annog staff sy'n siarad Cymraeg a dysgwyr i wisgo bathodyn bychan sy'n dangos i'r cyhoedd eu bod yn siarad Cymraeg.

iii) Bydd yr heddlu yn cofnodi ac yn trosglwyddo gwybodaeth am ddewis iaith aelodau o'r cyhoedd i bartïon eraill sy'n gyfrifol am weinyddu'r system Cyfiawnder Troseddol.

iv) Bydd Heddluoedd Cymru yn rhannu arfer da ac yn cydweithredu ar brosiectau er budd eu gwahanol Gynlluniau Iaith. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy sefydlu Grŵp Iaith Gymraeg yr Heddluoedd. Prif Gwnstabl Cynorthwyol (Gweithrediadau) yr HTP fydd yn arwain ar faterion Cymreig ac yn fewnol fel rhan o Grŵp Gweithredu Amrywiaeth yr Heddlu.

DARPARU GWASANAETHAU AR GYFER CYHOEDD CYMRU

Gohebiaeth Ysgrifenedig

Mae'r HTP yn croesawu gohebiaeth ysgrifenedig a llythyrau yn Gymraeg a Saesneg

Bydd llythyrau yn y naill iaith neu'r llall yn cael eu hateb a'u llofnodi yn iaith yr ohebiaeth wreiddiol yn unol â tharged corfforaethol yr HTP, neu lle nad yw hyn yn bosibl, cydnabyddiaeth wedi ei llofnodi a ddilynir gan ddiweddariadau ar ddatblygiadau.

Bydd yr holl newyddlenni, taflenni, llythyrau neu ffurflenni safonol a anfonir i'r cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog. Bydd yr holl ffurflenni a gynhyrchir yn ganolog, sy'n cynnwys manylion dirwyon penodol, yn ddwyieithog.

Os bydd unrhyw aelod o staff yn gohebu drwy lythyr neu neges e-bost gydag aelod o'r cyhoedd ar ôl cyfarfod wyneb yn wyneb neu yn dilyn sgwrs dros y ffôn yn Gymraeg, yna bydd yr ohebiaeth ysgrifenedig yn Gymraeg neu yn newis iaith yr aelod hwnnw o'r cyhoedd.

Bydd yr heddlu'n anfon unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg i bobl y gwyddom, drwy gyswllt blaenorol, fod yn well ganddynt ohebu yn Gymraeg. Bydd y Sector yn cadw cronfa ddata o'r bobl hynny sydd eisiau cyfathrebu yn

Gymraeg.

Os na wyddir beth yw dewis iaith unigolyn, yna bydd yr ohebiaeth yn cael ei hanfon allan yn ddwyieithog.

Bydd yr holl fanylion safonol ar bapur swyddogol, gan gynnwys wyneb-ddalen negeseuon ffacs safonol yn yr heddlu yn ddwyieithog. Bydd y Gymraeg yn ymddangos uwchben y Saesneg neu i'r chwith o'r Saesneg gyda'r ddwy iaith yn gyfartal o ran maint, ansawdd ac eglurder. Mae hyn yn cynnwys unrhyw neges destun safonol. Mae hefyd yn cynnwys manylion cyswllt a negeseuon e-bost allanol.

Er mwyn gweithredu'r polisi uchod, byddwn yn codi ymwybyddiaeth yr holl staff o'r trefniadau hyn yn ogystal ag unrhyw gefnogaeth sydd ar gael i aelodau o staff nad ydynt yn siarad Cymraeg wrth gyfathrebu gyda'r cyhoedd.

Gweithredu

i) Bydd staff yn sicrhau bod yr holl fanylion safonol sy'n ymddangos ar bapur pennawd yr HTP (Cymru) neu ar ffurf electroneg neu ar ddalennau ffacs a ddefnyddir ar gyfer gohebiaeth swyddogol yn ddwyieithog.

ii) Bydd Pencadlys yr Ardal yn cadw cofnod cyfredol o enwau pobl sy'n dymuno derbyn gohebiaeth ysgrifenedig yn Gymraeg

iii) Bydd yr holl ffurflenni sy'n cynnwys manylion penodol dirwy neu gosb a anfonir at y cyhoedd yn gwbl ddwyieithog.

CYFATHREBU DROS Y FFÔN

Bydd croeso i bob aelod o'r cyhoedd sy'n dymuno neu sy'n gorfod trafod unrhyw fater wyneb yn wyneb gyda'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yng Nghymru wneud hynny yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Mae Ystafell Reoli'r HTP ar gyfer Sector Cymru ym Mirmingham.
Yn 2009, bwriedir dechrau adeiladu ystafell reoli newydd i'r HTP sy'n gwasanaethu Ardaloedd taleithiol yr Heddlu, a nod yr Heddlu fydd sicrhau'r safon gorau posibl o ran gwasanaeth i'r bobl hynny sydd eisiau siarad Cymraeg. Bydd hyn yn cael ei wneud mewn trafodaethau gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Bydd staff yn dangos sensitifrwydd ieithyddol a chwrteisi wrth ymateb i alwadau Cymraeg.

Bydd Pencadlys yr Ardal yn darparu cyfarwyddiadau i staff ynglŷn â sut i

ymateb yn briodol i alwadau ffôn oddi wrth y cyhoedd.

Bydd holl beiriannau ateb Sector Cymru sydd ar rifau ffôn allanol a gyhoeddir gan yr HTP fel rhai sy'n darparu mynediad uniongyrchol i'r cyhoedd yn cynnwys neges ddwyieithog.

Bydd staff sy'n siarad Cymraeg yn cael eu henwi ym mhob Gorsaf a bydd cronfa ddata o'u manylion yn cael ei chadw. Bydd hyn yn galluogi gorsafoedd i roi'r sylw priodol i alwadau a gaiff eu hailgyfeirio yn unol â dymuniadau'r un sy'n galw neu er mwyn sicrhau bod rhywun yn ffonio'n ôl os nad oes siaradwr Cymraeg ar gael yn syth.

Gweithredu

i) Bydd Pennaeth yr Ystafell Reoli yn trefnu canllawiau ar gyfer staff ystafelloedd rheoli yn unol â nodau'r Cynllun hwn. Bydd y tîm rheoli yn monitro'r polisi hwn.

ii) Bydd pob aelod o staff sy'n ymateb yn uniongyrchol i alwadau ffôn allanol yn ymdrin â'r galwadau hynny yn unol â'r canllaw yn yr adran hon.

iii) Yn dilyn trafodaeth gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg, darparu cynllun gweithredu sy'n anelu tuag at sicrhau'r safon orau bosibl o ran gwasanaeth i bobl sydd eisiau siarad Cymraeg.

CYFARFODYDD CYHOEDDUS

Bydd croeso i bob aelod o'r cyhoedd sy'n mynd i gyfarfodydd yr HTP yng Nghymru siarad Cymraeg neu Saesneg. Bydd hysbysebion, gwahoddiadau a phapurau eraill cyhoeddus sy'n disgrifio trefniadau cyfarfodydd cyhoeddus yn egluro fod hyn yn bosibl. Os ceir cadarnhad fod aelodau o'r cyhoedd sy'n dod i'r cyfarfod eisiau gwasanaeth cyfieithu, yna bydd gwasanaeth cyfieithu yn cael ei ddarparu.

Hefyd, bydd yr egwyddor o ddarparu dewis iaith neu ymateb yn bositif i gais am gyfraniad Cymraeg yn berthnasol mewn cyfarfodydd cynghorau lleol a chyflwyniadau a sgyrsiau a gynhelir mewn sefydliadau addysgol ac yn y gymuned. Ar gais rhesymol, bydd yr HTP yn anelu tuag at ddarparu staff Cymraeg eu hiaith i bwrpas annerch ysgolion, cymdeithasau, grwpiau ieuenctid, ayb, ar faterion sydd o ddiddordeb plismona yn unol â dymuniadau'r sefydliad/grŵp.

Gweithredu

i) Ym mhob cyfarfod neu gynhadledd gyhoeddus a gynhelir gan yr HTP yng Nghymru, bydd cadeirydd y digwyddiad hwnnw yn agor trafodaethau gyda chyfarchiad dwyieithog. Lle bo'n berthnasol, bydd y rhai sy'n cymryd rhan hefyd yn cael gwybod bod cyfleusterau cyfieithu ar gael ac y gallant gyfrannu at y cyfarfod yn eu dewis iaith.

ii) Bydd Pennaeth y Sector yn sicrhau bod yr aelodau staff sy'n gyfrifol am gynrychioli'r Heddlu mewn unrhyw gyfarfodydd neu gyflwyniadau allanol yng Nghymru yn cynnig dewis o ran darparu'r gwasanaeth naill ai'n Gymraeg, neu'n Saesneg neu'n ddwyieithog, ac yn ymateb yn bositif i gais am wasanaeth yn Gymraeg.

CYSWLLT ARALL GYDA'R CYHOEDD

Bydd croeso i bob aelod o'r cyhoedd sy'n dymuno neu sy'n gorfod trafod unrhyw fater wyneb yn wyneb gyda'r Heddlu wneud hynny yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Byddwn yn gwneud darpariaethau ar gyfer unigolion sy'n dymuno siarad Cymraeg mewn cyfarfodydd. Bydd hysbysebion a phosteri dwyieithog yn cael eu gosod ar safleoedd cyhoeddus mewn gorsafoedd ac adeiladau heddlu er mwyn tynnu sylw at y cyfleusterau hyn.

Lle bo'n ymarferol yn Sector Cymru, bydd staff sy'n siarad Cymraeg yn cael eu lleoli mewn gweithleoedd lle mae aelodau'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg yn aml yn dymuno trafod materion drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ym mhob cyfrwng cyfathrebu arall, mae'r HTP wedi ymgymryd i gyfathrebu â'r cyhoedd yn eu dewis iaith. Bydd cynllun gweithredu yn cael ei baratoi i ddatblygu cynnwys Cymraeg ar safle Rhyngrwyd yr HTP sy'n ymwneud â materion Sector Cymru.

Pan fydd unigolion yn cael eu cyfweld yn ystod ymchwiliad, bydd yr HTP yn rhoi gwybod i'r unigolion hynny ar lafar am yr hawl i gael eu cyfweld yn Gymraeg neu'n Saesneg yn unol â dymuniadau'r unigolyn. Os nad oes swyddog sy'n siarad Cymraeg ar gael yn syth, bydd trefniadau wrth gefn yn cael eu gwneud.

Gweithredu

i) Bydd staff gorsafoedd heddlu yn cynnig ac yn hwyluso defnydd iaith mewn modd rhagweithiol.

ii) Bydd staff sy'n gallu siarad Cymraeg neu sy'n dysgu yn cael eu hannog i gyfarch y cyhoedd yn ddwyieithog ar ddechrau unrhyw gyfarfod neu sgwrs er mwyn hwyluso'r dewis iaith.

iii) Bydd staff yn ymateb yn bositif i gais am wasanaeth Cymraeg ac yn hwyluso'r broses os nad ydynt yn siarad Cymraeg eu hunain.

iv) Bydd yr HTP yn paratoi cynllun gweithredu i ddatblygu'r cynnwys Cymraeg ar safle rhyngrwyd yr HTP sy'n ymwneud â materion Sector Cymru.

WYNEB CYHOEDDUS YR HTP (SECTOR CYMRU)

Bydd y dogfennau a'r arwyddion a ganlyn yn y ddwy iaith

Bathodynnau (Iwnifform, helmed ayb.)
Cardiau Busnes
Slipiau Cyfarchion
Dogfennau Ymgynghori
Copi o dystiolaeth yr heddlu yn erbyn y cyhuddedig - ar gais
Tâp cau ardal i ffwrdd
Ffurflenni tystiolaeth / tyst
Dalennau ffacs
Rhybuddion cosb benodol
Taflenni gwybodaeth gyffredinol
Penawdau llythyr
Rhybuddion o bob math y tu mewn a thu allan i adeiladau'r heddlu
Arolygon barn (drwy'r post / wyneb yn wyneb / dros y ffôn)
Tocynnau parcio
Cerbydau'r heddlu
Cyhoeddiadau ar gyfer ysgolion, grwpiau gwirfoddol, yr henoed, ayb.
Derbynebau (am eitemau personol tra bod rhywun yn y ddalfa)
Derbynebau, anfonebau a sieciau
Arwyddion (parhaol – ar ac mewn adeiladau heddlu)
Arwyddion (dros dro – ar ffyrdd)
Llythyrau safonol
Ffurflenni datganiad
Iwnifformau

Arwyddion

Cyfrifoldeb Pennaeth y Sector yw canfod methiannau mewn arwyddion a rhoi gwybod i Bencadlys yr Ardal.

<u>Gweithredu</u>

i) Bydd Sector Cymru'r HTP yn sicrhau bod pob arwydd a hysbysiad yn ddwyieithog a bod y fersiwn Cymraeg yn ymddangos naill ai uwch ben neu i'r chwith o'r fersiwn Saesneg..

CYHOEDDIADAU A DEFNYDDIAU YSGRIFENEDIG (GAN GYNNWYS FERSIYNAU ELECTRONEG)

Dogfennau Allanol

Bydd holl gyhoeddiadau a defnyddiau ysgrifenedig (gan gynnwys fersiynau electroneg) yr HTP ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog.

Mae'r fethodoleg yn Atodiad 'A' yn dangos pa eitemau fydd yn ddwyieithog bob amser a pha eitemau a fydd fel arfer yn ymddangos mewn un iaith yn unig. Mae'n rhaid blaenoriaethu gwaith a sicrhau bod yr adnoddau cyfieithu yn cael eu defnyddio ar gyfer eitemau o'r pwys mwyaf.

Dogfennau Mewnol

Ni fydd dogfennau mewnol yn cael eu cyfieithu ar draul dogfennau cyhoeddus. Bydd y canllawiau yn Atodiad 'A' yn cael eu defnyddio er mwyn blaenoriaethu rhwng eitemau mewnol ac allanol.

Lle bo'n bosibl, bydd pob dogfen gyhoeddus yn cynnwys y fersiynau Cymraeg a Saesneg. Bydd y testun Cymraeg yn ymddangos uwch ben neu i'r chwith o'r testun Saesneg. Lle nad yw hyn yn ymarferol oherwydd anawsterau argraffu, bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu cyhoeddi a'u dosbarthu ar yr un pryd.

Ni fydd copi Cymraeg o ddogfen yn ddrytach na chopi Saesneg a bydd o ansawdd gyfartal.

Pan gynhyrchir fersiwn uniaith o ddogfen neu ffurflen, bydd yn cynnwys neges sy'n cadarnhau fod y ddogfen neu'r ffurflen ar gael yn yr iaith arall.

Gweithredu

i) *Mae'r HTP (Sector Cymru) yn awyddus i weld mwy o ddefnydd o'r iaith Gymraeg fel iaith busnes mewnol. Dylai staff sy'n gyfrifol am gynhyrchu eitemau ar gyfer defnydd mewnol ystyried y cyfle i gynnwys y ddwy iaith..*

ii) *Bydd yr Heddlu yn annog Heddluoedd eraill yng Nghymru i gefnogi ei gais i'r Swyddfa Gartref i gydnabod bodolaeth dwy iaith swyddogol Cymru a'r angen i greu a chynhyrchu prosesau a llenyddiaeth ddwyieithog.*

FFURFLENNI A DEFNYDDIAU ESBONIADOL ERAILL

DATGANIADAU I'R WASG

Gweithredu

i) Bydd cofnod o ddewis yn cael ei gadw yn yr adran cysylltiadau â'r cyfryngau a bydd Swyddogion Cyswllt y Wasg yn lleol yn cael gwybod am y dewis hwn. Bydd data yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru bob blwyddyn.

YMGYRCHOEDD CYHOEDDUSRWYDD, HYSBYSIADAU CYHOEDDUS A HYSBYSEBION RECRIWTIO

- Bydd yr holl lenyddiaeth cyhoeddusrwydd i'w ddefnyddio yng Nghymru yn Gymraeg a Saesneg.

- Bydd ymgyrchoedd hysbysebu yng Nghymru yn Gymraeg a Saesneg.

- Bydd ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd a bwletinau gwybodaeth a ddarlledir yng Nghymru ar y teledu a'r radio yn Gymraeg a Saesneg.

- Bydd hysbysebu ar bosteri a phalisau a'r defnydd o negeseuon electroneg yng Nghymru yn Gymraeg a Saesneg.

- Bydd arolygon cyhoeddus yng Nghymru, boed y rheiny'n cael eu cynnal drwy'r post, o ddrws i ddrws, ar y stryd neu fel arall, yn cael eu cynnal yn ddwyieithog.

- Bydd ymgyrchoedd marchnata uniongyrchol yn cael eu cynnal yn Gymraeg a Saesneg.

- Bydd dulliau ymateb sy'n gysylltiedig â gweithgareddau cyhoeddusrwydd a marchnata yng Nghymru yn ei gwneud yn bosibl i gyfathrebu yn Gymraeg a Saesneg.

- Bydd stondinau arddangos gwybodaeth ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog.

(Pan fo angen nodi rhifau ffôn cyswllt ar unrhyw lenyddiaeth cyhoeddusrwydd, bydd rhifau priodol yn cael eu cynnwys.)

Bydd hysbysiadau recriwtio ym mhob cyhoeddiad Saesneg yn y DG (e.e. *Police Review)* yn ymddangos yn Saesneg oni bai:

fod y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol.

- Y byddai o fudd i hysbysebu'n ddwyieithog er mwyn denu siaradwyr Cymraeg ar draws y DG.

Bydd hysbysiadau recriwtio ym mhob cyhoeddiad Saesneg yn y DG yn cyfeirio at natur ddwyieithog ardal yr Heddlu.

Gweithredu

i) Dylai staff sy'n gyfrifol am baratoi ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd yng Nghymru gynllunio'n ddwyieithog ac ystyried yr angen i ddangos sensitifrwydd ieithyddol a diwylliannol wrth gynllunio.

ii) Mae angen i unrhyw gorff neu grŵp sy'n gweithio mewn partneriaeth gyda'r heddlu am resymau cyhoeddusrwydd gydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg yr Heddlu.

GWEITHREDU'R POLISI

Staffio, Recriwtio a Hyfforddi

Nod Sector Cymru'r HTP yw bod yn sefydliad dwyieithog. Ond ar hyn o bryd, nid oes gan yr Heddlu ddigon o staff gyda'r gallu, yr hyder a'r parodrwydd i siarad Cymraeg er mwyn sicrhau dewis iaith yn y gwasanaethau a ddarperir ar gyfer y cyhoedd. Ond, mae'r Heddlu yn ymrwymedig i geisio cynyddu'r nifer o staff dwyieithog a recriwtir ac i roi cyhoeddusrwydd i hynny.

Mae'r Heddlu yn awyddus i gynyddu gallu holl staff Sector Cymru yn yr iaith Gymraeg er mwyn dangos cwrteisi ieithyddol a sensitifrwydd iaith. Mae hyn yn cael ei wneud er mwyn newid proffil ieithyddol yr heddlu mewn modd cynlluniedig. Bydd disgwyl i'r holl staff gyflawni o leiaf Lefel 1 yn Fframwaith Gallu Iaith Gymraeg yr Heddlu. Bydd cynlluniau'n cael eu datblygu i sicrhau bod staff yn cael cyfle i ddatblygu sgiliau sylfaenol yn yr iaith Gymraeg hyd at Lefel 1.

Gweithredu

i) Bydd yr Heddlu'n parhau i geisio recriwtio rhagor o staff sy'n siarad Cymraeg a dysgwyr gyda sgiliau perthnasol eraill i gyflawni dyletswyddau'r swydd. Rhan o'r broses hon yw meithrin a chynnal cyswllt gyda sefydliadau a chymdeithasau Cymraeg.

Mae egluro cefndir, nodau ac amcanion y Cynllun Iaith yn hanfodol er mwyn cyflwyno newid diwylliannol yn yr heddlu. Bydd holl staff newydd i'r heddlu yn cael cyflwyniad ar ddisgwyliadau'r sefydliad fel rhan o unrhyw gwrs cyflwyno i staff newydd. Hefyd, bydd sesiynau Ymwybyddiaeth Iaith yn cael eu darparu yn ystod cyrsiau datblygu sgiliau rheoli a chyrsiau ar gyfer staff sydd mewn cysylltiad rheolaidd gyda'r cyhoedd.

<u>Gweithredu</u>

i) Bydd yr heddlu yn edrych ar ffyrdd o ymestyn y ddarpariaeth hyfforddiant ymwybyddiaeth ieithyddol a sensitifrwydd ieithyddol ar gyfer staff.

Bydd Fframwaith Gallu Iaith Gymraeg yr Heddlu yn cael ei ddefnyddio i asesu lefelau gallu yn yr iaith Gymraeg (Atodiad 'C'). Bydd pobl sy'n ymgeisio am swyddi yn cael gwybod beth yw'r lefel gallu ieithyddol briodol.

Lle bo angen, ac er mwyn cyflawni nod a gytunwyd h.y. darparu dewis iaith ddilys i'r cyhoedd, bydd yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn dynodi'r gweithleoedd a'r swyddi hynny lle mae angen lefel benodol o allu sydd uwchben Lefel 1.

Mae pob aelod newydd a gaiff ei recriwtio a'r staff presennol – yn swyddogion heddlu ac yn staff yr heddlu – yn cael eu hannog i fynd yn wirfoddol ar hyfforddiant iaith Gymraeg.

<u>Gweithredu</u>

i) Yr Heddlu i weithio tuag at gydnabod gallu yn yr iaith Gymraeg fel sgil.

ii) *Yr Adran Adnoddau Dynol fydd â pherchenogaeth ganolog a goruchwyliaeth strategol dros y broses o ddynodi gofynion lefel o ran gallu yn yr iaith Gymraeg ar gyfer yr holl swyddi.*

iii) *Bydd rheolwyr adnoddau dynol yn sicrhau bod Sector Cymru yn ystyried anghenion ieithyddol swyddi a lleoliadau wrth bennu pa staff sy'n briodol ar gyfer unrhyw swydd benodol.*

Cefnogir pob aelod o staff sy'n dymuno neu sydd angen dysgu Cymraeg neu wella eu gallu yn yr iaith Gymraeg. Bydd blaenoriaeth yn cael ei roi i swyddi

lle mae unigolyn mewn cysylltiad rheolaidd gydag aelodau o'r cyhoedd. Lle mae achos busnes i fuddsoddi mewn staff sy'n mynd ar gyrsiau hyfforddiant iaith, byddant yn cael eu cynnal yn ystod oriau gwaith a'r Heddlu fydd yn gyfrifol am dalu unrhyw ffïoedd.

Os caiff rhywun di-Gymraeg ei benodi/phenodi i swydd lle mae angen lefel benodol o allu yn y Gymraeg fel rhan o'r Fframwaith Gallu (Atodiad C), bydd disgwyl i'r unigolyn a benodwyd ddysgu'r iaith i'r lefel ddisgwyliedig o fewn cyfnod o amser a gytunir. Bydd contract y swydd yn cael ei addasu i gynnwys y gofyniad hwn. Os na chyflawnir y targed dysgu o fewn y cyfnod a bennwyd, bydd perfformiad yr aelod hwnnw/ o staff yn cael ei adolygu yn unol â'r contract cyflogaeth.

Gweithredu

i) *Bydd hyfforddiant iaith Gymraeg yn cael yr un statws ag unrhyw hyfforddiant arall yn yr Heddlu. Bydd prosesau sy'n rhan o'r Adolygiad Datblygiad Proffesiynol (PDR) yn cael eu defnyddio i ddynodi anghenion hyfforddi staff. Os codir / dynodir angen am hyfforddiant yn yr iaith Gymraeg, neu os yw aelod o staff yn mynegi dymuniad i ddysgu Cymraeg, bydd hyn yn cael ei nodi gan Adnoddau Dynol. Fel yn achos unrhyw hyfforddiant, cyfrifoldeb y rheolwyr llinell fydd enwi staff sydd angen mynd ar gyrsiau ac i hwyluso a monitro presenoldeb yn ogystal â dangos diddordeb yn natblygiad yr unigolyn hwnnw.*

ii) *Bydd yr heddlu'n annog holl staff di-Gymraeg yr HTP sydd mewn cysylltiad gyda'r cyhoedd i ddatblygu eu gallu sylfaenol yn yr iaith Gymraeg er mwyn cryfhau gallu'r heddlu i ddangos cwrteisi ieithyddol.*

Lle bo'n briodol, bydd hyfforddiant galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei gynnig i staff.

TREFNIADAU GWEINYDDOL

Trafodwyd y cynigion yn llawn gyda'r Prif Gwnstabl ac Awdurdod llawn yr Heddlu ac fe'u cymeradwywyd ganddynt.

Cyfrifoldeb Pennaeth y Sector yw cylchredeg manylion y cynllun a sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'r gofynion.

Bydd yr Heddlu'n cydnabod bod darparu dewis iaith a dangos sensitifrwydd

ieithyddol yn chwarae rhan sylweddol yn y broses o sicrhau gofal cwsmer a boddhad cwsmeriaid.

Gweithredu

i) Pan gyflwynir unrhyw gynlluniau datblygu prosiect / polisi i'w cymeradwyo gan y Prif Swyddogion a/neu'r Awdurdod, bydd angen nodi bod y cynllun / polisi yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg, lle bo hynny'n berthnasol.

ii) Bydd unrhyw brif swyddogion / aelodau newydd yr Awdurdod Heddlu yn cael eu gwneud yn ymwybodol o fodolaeth Cynllun Iaith Gymraeg yr Heddlu fel rhan o'u sesiwn gyflwyno.

LLYFRYN GWYBODAETH

Bydd llyfryn gwybodaeth yn cael ei baratoi ar gyfer pob aelod o staff yn egluro natur y cynllun hwn a sut y dylid ei weithredu a'r dyddiadau targed a bennwyd.

Gweithredu

Bydd Cydlynydd Iaith Gymraeg yr Heddlu yn darparu cyngor a chanllawiau i staff ar eu cyfrifoldebau dan y Cynllun Iaith Gymraeg.

GWASANAETHAU A DDARPERIR AR RAN YR HTP YNG NGHYMRU GAN BARTÏON ERAILL

Wrth gyflawni swyddogaethau statudol a'r swyddogaethau hynny sy'n rheoleiddio'r ddarpariaeth o wasanaethau i'r cyhoedd, bydd yr heddlu'n:

i) Annog sefydliadau trydydd parti sy'n darparu gwasanaeth i'r cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaeth.

(ii) Cyfeirio'r sefydliad at y cynllun iaith Gymraeg a'r arferion da sydd wedi eu sefydlu ynddo a chynnwys mesurau ynglŷn â defnyddio'r iaith Gymraeg mewn cytundebau gwasanaeth, trwyddedau gwasanaeth neu ddogfennau rheoleiddio eraill er mwyn cynnig arweiniad a chefnogaeth i sefydliadau.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth gyda chyrff cyhoeddus eraill, sefydliadau o'r sector gwirfoddol ac asiantaethau eraill. Byddwn yn gweithio ar amrywiaeth o lefelau wrth gydweithredu ag eraill:

i) Pan fyddwn yn arwain partneriaeth, yn strategol ac yn

ii) Pan fyddwn yn ymuno â phartneriaeth dan arweinyddiaeth corff arall, bydd ein cyfraniad ni i'r bartneriaeth yn cydymffurfio gyda'r Cynllun Iaith a byddwn yn annog partïon eraill i gydymffurfio.

iii) Pan fyddwn yn gweithredu fel rhan o gonsortiwm, byddwn yn annog y consortiwm i fabwysiadu polisi iaith. Wrth weithredu'n gyhoeddus yn enw'r consortiwm, byddwn yn gweithredu'n unol â'r Cynllun Iaith.

Pan fyddwn yn ymuno â phartneriaeth neu'n ffurfio un, byddwn yn gofyn i ddarpar-bartneriaid eraill am eu Cynllun Iaith, eu polisi iaith neu am y modd y maent yn bwriadu gweithredu'n ddwyieithog. Ym mhob partneriaeth, byddwn yn cynnig cyngor a chefnogaeth i bartïon eraill sy'n rhan o'r bartneriaeth honno.

Byddwn yn paratoi canllawiau i swyddogion sy'n aelodau o bartneriaethau sy'n egluro'r cyfrifoldebau yn unol â'r Cynllun Iaith ac yn egluro i swyddogion sut i briodoli disgwyliadau'r Cynllun Iaith i waith y bartneriaeth.

Gweithredu

i) *Bydd Swyddogion cydlynu unrhyw brosiect ar y cyd ag asiantaethau / gyrff eraill yn sicrhau bod y prosiect yn cydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg yr Heddlu. Bydd hyn yn cynnwys darparu gwasanaethau i'r cyhoedd a chynhyrchu llenyddiaeth esboniadol / hyrwyddol.*

MONITRO GWEITHREDIAD Y CYNLLUN

Bydd Pennaeth y Sector yn cynnal adolygiadau chwarterol strwythuredig o berfformiad yr Heddlu yn ôl y Cynllun. Drwy ofyn am adroddiadau oddi wrth y rhai hynny sydd â phrif gyfrifoldeb, bydd hyn yn sicrhau bod y meysydd priodol yn cael y sylw dyledus. Drwy alw am adroddiadau oddi wrth y rheiny sydd wedi eu henwebu ar gyfer prif gyfrifoldebau, bydd yn sicrhau bod y meysydd a ganlyn yn cael sylw.

Darparu Gwasanaeth

Bydd yr Heddlu yn monitro'n barhaus y gwasanaethau a ddarperir gan y sefydliad yn y ddwy iaith, eu heffeithiolrwydd a pha mor dda yw'r sefydliad o ran annog defnydd o'r iaith Gymraeg gan bartïon eraill.

Gweithredu

i) Mae angen i Bennaeth y Sector baratoi adroddiadau i Grŵp Iaith Gymraeg yr Heddlu ar gais y cadeirydd ar eu defnydd o'r iaith Gymraeg.

ii) Cydlynydd Iaith Gymraeg yr HTP fydd yn gyfrifol am fonitro cydymffurfiad gorsafoedd â'r Cynllun Iaith Gymraeg o ddydd i ddydd gyda chefnogaeth Pennaeth y Sector a Phrif Swyddog ACPO a fydd yn gyfrifol am faterion Cymreig.

iii) Bydd Pennaeth y Sector yn gyfrifol am ddatblygu prosesau a fydd yn sicrhau bod eu gweithdrefnau a'u gweithrediadau yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg. Byddant yn enwebu aelod o staff i weithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg ar lefel leol. Yr unigolyn hwn i fod yn gyfrifol am gwblhau a dychwelyd yr adroddiadau monitro i Gydlynydd Iaith Gymraeg yr HTP.

iv) Bydd unrhyw ymchwil i foddhad y cyhoedd gyda'r gwasanaeth a ddarperir gan yr heddlu yn cynnwys cyfeiriad at eu gallu i dderbyn gwasanaeth yn Gymraeg.

Ymdrin â'r Cyhoedd sy'n siarad Cymraeg

Bydd yr Heddlu'n monitro amseroedd ymateb i lythyrau Cymraeg, safon y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd a'r trefniadau ar gyfer cynnal cyfarfodydd dwyieithog gyda'r cyhoedd a phartneriaethau.

Gweithredu

i) Bydd yr iaith Gymraeg a dewis o ran iaith yn y ddwy iaith swyddogol yn cael eu prif-ffrydio i mewn i holl systemau a phrosesau sicrhau ansawdd yr Heddlu.

Delwedd Gyhoeddus y Sefydliad

Bydd Pencadlys yr Ardal yn monitro'r defnydd o gyhoeddiadau, ffurflenni, arwyddion, hysbysiadau a defnyddiau dwyieithog eraill a gyhoeddir yn ogystal â sicrhau bod hunaniaeth gorfforaethol yr Heddlu yn cael ei lledaenu.

Gweithredu

(i) Bydd unrhyw nodweddion corfforaethol yn defnyddio'r ddwy iaith a bydd y Gymraeg yn ymddangos uwchben neu i'r chwith

ii) Pennaeth y Sector (Sector Cymru) fydd yn gyfrifol am fonitro'r defnydd o ddefnyddiau dwyieithog.

AMSERLEN

Bydd y staff a'r cyhoedd yn cael gwybod am amcanion Cynllun Iaith Gymraeg yr Heddlu yn ogystal â'r perfformiad blynyddol yn erbyn yr amcanion hyn.
Bydd yr Heddlu'n monitro cyflawniad yn erbyn targedau yn unol â'r disgrifiad yn amserlen gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg yr Heddlu.

Gweithredu

(i) Bydd cyfeiriadau at ddatblygiadau a chyflawniadau mewn perthynas â'r Cynllun Iaith Gymraeg yn cael eu cynnwys yn Adroddiad Blynyddol yr Heddlu.

ii) Bydd goruchwylwyr yn gyfrifol am roi gwybod i staff am nodau ac amcanion y Cynllun Iaith.

(iii) Bydd gwybodaeth am nodau ac amcanion y Cynllun ar gael ar wefan a mewnrwyd yr heddlu.

ASIANTAU A CHONTRACTWYR

Bydd yr Heddluoedd yn monitro'r ddarpariaeth a gweinyddiad gwasanaethau gan asiantau a chontractwyr yr Heddluoedd er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Cynllun.

Gweithredu

(i) Bydd yr un sy'n gyfrifol am brynu/rheoli gwasanaethau gan asiantau a chontractwyr yn sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn cydymffurfio gyda'r Cynllun Iaith Gymraeg.

SYLWADAU A CHWYNION AM Y CYNLLUN IAITH GYMRAEG

Fel rhan o raglen ansawdd gwasanaeth yr Heddlu, bydd ystyriaeth yn cael ei roi i'r hyn sydd gan y cyhoedd Cymraeg eu hiaith i'w ddweud am amrediad a safon y gwasanaeth a ddarperir gan yr HTP (Sector Cymru).

Bydd yr HTP (Sector Cymru) yn croesawu ac yn cofnodi awgrymiadau ynglŷn â sut i wella'r ddarpariaeth gwasanaethau iaith Gymraeg. Dylid cyflwyno awgrymiadau i'r Prif Gwnstabl ym Mhencadlys yr Heddlu. Bydd yr Heddlu'n ystyried yr awgrymiadau hyn ac, os teimlir eu bod yn berthnasol ac yn haeddu cael eu mabwysiadu, byddant yn cael eu cynnwys ym mholisïau'r Heddlu. Bydd yr unigolyn a anfonodd yr awgrym yn cael gwybod am y datblygiadau.

Gweithredu

i) *Bydd unrhyw gwynion am y Cynllun Iaith yn cael eu cofnodi fel cwyn yn erbyn y sefydliad. Bydd y gŵyn yn cael ei chofnodi gan yr Adran Safonau Proffesiynol.*

ii) *Bydd Pennaeth y Sector yn nodi unrhyw sylwadau eraill oddi wrth y cyhoedd ynglŷn â safon y gwasanaeth Cymraeg pan fydd hyn yn cael ei ddwyn i sylw Cydlynydd Iaith Gymraeg yr Heddlu. Bydd pob cwyn / sylw a gyflwynir yn cael eu tynnu i sylw Grŵp Iaith Gymraeg yr Heddlu yn ei gyfarfodydd.*

Bydd yr Heddlu'n codi ymwybyddiaeth staff o fodolaeth y Cynllun Iaith a'i nodau a'i amcanion. Bydd Sesiynau hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith yn cael eu defnyddio fel rhan o gynlluniau hyfforddi eraill yn ogystal â gweithdrefnau mewnol ar gyfer dosbarthu gwybodaeth

Yn draddodiadol, mae'r cyhoedd yng Nghymru wedi arfer ymdrin â chynrychiolwyr awdurdod yn Saesneg. Bydd Sector Cymru'r HTP yn gweithio i newid yr agwedd hon. Rhan o hyn fydd sicrhau bod mynediad i wasanaeth Cymraeg ar gael yn hawdd yn yr un modd â mynediad i wasanaeth Saesneg.

Gweithredu

i) *Mae manylion am y Cynllun Iaith Gymraeg ar gael ar wefan yr HTP.*

ii) *Bydd copi o'r Cynllun Iaith Gymraeg yn ogystal â chyngor a chanllawiau er gwybodaeth i staff ar gael ar Fewnrwyd yr Heddlu.*

iii) *Bydd arwyddion yn cael eu harddangos mewn mannau cyhoeddus fel cownteri mewn Gorsafoedd Heddlu, mewn derbynfeydd adeiladau ac ystafelloedd dalfa yn nodi fod gwasanaeth dwyieithog ar gael.*

ADRODD

Bydd yr HTP (Sector Cymru) yn paratoi Adroddiad Blynyddol ar gyfer Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar ffurf sydd wedi'i gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith

Gymraeg, sy'n disgrifio datblygiadau o ran gweithredu mesurau yn y Cynllun yn erbyn amserlenni ac yn erbyn safonau gwasanaeth y cytunwyd arnynt. Hefyd, byddant yn cynnwys dadansoddiad o nifer a natur y cwynion neu'r awgrymiadau ar gyfer gwella oddi wrth aelodau'r cyhoedd mewn perthynas â materion Iaith Gymraeg.

Gweithredu

i) Cydlynydd Iaith Gymraeg yr Heddlu fydd yn gyfrifol am gynhyrchu adroddiad blynyddol ar gyfer Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar weithrediad y Cynllun Iaith.

ATODIAD A – Canllaw ar ba ddogfennau ddylai fod yn ddwyieithog (neu yn Gymraeg a Saesneg)

Eitemau Categori A: i fod yn ddwyieithog (neu yn Gymraeg a Saesneg)
Category A items: to be bilingual (or in Welsh and in English)

Hysbysebion / Advertisements	Llenyddiaeth recriwtio Recruitment literature
Llyfrynnau / Booklets	Ffurflenni a phecynnau ymgeisio am swydd Job application forms and packs
Pamffledi / taflenni Brochures / leaflets	Cylchlythyrau sydd wedi'u hanelu at y cyhoedd Newsletters which are aimed at the public
Ffurflenni i'r cyhoedd Forms for the public	Holiaduron / arolygon i'r cyhoedd Questionnaires / surveys for the public
Eitemau i'w harddangos yn gyhoeddus e.e. sticeri, posteri, tocynnau, hysbysiadau rhybuddio Items for public display e.g. stickers, posters, passes, warning notices	Rhaglenni gwaith a chofnodion Grŵp laith Gymraeg yr Heddlu Force Welsh Language Group agendas and minutes
Adroddiadau Blynyddol Annual reports	Datganiadau a bwletinau ystadegol Statistical bulletins and releases
Llythyrau safonol Standard letters	Arddangosfeydd i'r cyhoedd Displays for the public
Deunyddiau cyhoeddusrwydd Publicity material	

Eitemau Categori B: eitemau a fydd o bosib yn ddwyieithog gan ddibynnu ar amgylchiadau
Category B items: items which might be bilingual depending on circumstances

Taflenni newyddion mewnol Internal newsletters	Cyflwyniadau / Presentations
Papurau ymchwil / Research papers	Strategaethau / Strategies
Adroddiadau / Reports	
Dogfennau ymgynghori mewnol Internal consultation documents	Cylchlythyrau / Circulars
Datganiadau i'r wasg Press notices	

Eitemau Categori C: fel arfer mewn un iaith
Category C items: will usually be monolingual

Cyfrifon (oni bai eu bod yn rhan o adroddiadau blynyddol) Accounts (unless they form part of	Gwybodaeth fewnol a gyhoeddir yn gyffredinol o dan Ryddid Gwybodaeth Internal information released

annual reports)	generally under Freedom of Information
Taflenni a ddosberthir mewn cynadleddau gan gyrff neu unigolion eraill Conference handouts supplied by other bodies or individuals	Drafftiau gwaith / Working drafts
Dogfennau contract (ac eithrio os gwnaethpwyd cais amdanynt neu mewn sefyllfaoedd penodol Contract documentation (except on request or in specific situations)	Dogfennau mewnol Internal documentation
Gwybodaeth hanesyddol / archif Historical / archive information	

Rhai canllawiau /Some guidelines:

Ystyriaethau		
Cynulleidfa darged	Aelodau o'r cyhoedd lle mae galw am ddefnyddiau Cymraeg yn wybyddus ac wedi'i hir sefydlu - Categori A	Arbenigwyr mewn sectorau neu sectorau penodol lle mai ychydig iawn o alw sydd am ddefnyddiau Cymraeg Categori C
A fydd yr eitem yn cael ei rhannu neu ei thrafod yn fewnol gan sefydliadau eraill?	Bydd Categori A	Na fydd - Categori C
Galw / diddordeb tebygol y cyhoedd neu fwyafrif siaradwyr Cymraeg ymysg y rhai â diddordeb	Uchel (diddordeb ymysg y cyhoedd yng Ngogledd Cymru neu ddiddordeb arbennig i siaradwyr Cymraeg) Categori A	Isel (grwpiau arbenigol) - Categori C
Statws / proffil Allanol	Oes - Categori A	Nac oes Categori C

Categori A – Dylai'r dogfennau hyn fod ac mi fyddant yn ddwyieithog

Categori C - Saesneg yn unig ar hyn o bryd ond efallai y byddant yn cael eu hail-ddynodi yn y dyfodol

Nodyn: Mae'n anochel na fydd yr uchod yn ymdrin â phob dogfen o bob math. Wrth asesu a ddylai eitemau fod yn ddwyieithog, dylai staff benderfynu ar gategori addas yn ôl yr hyn sydd ar gael i gymharu. Os oes unrhyw ansicrwydd, dylid gofyn am arweiniad.

Atodiad B –

TARGEDAU A DANGOSYDDION PERFFORMIAD CYNLLUN IAITH GYMRAEG YR HEDDLU
Cynllunio a Darparu Gwasanaethau **Polisïau a Mentrau newydd** **Targed** Bydd heddluoedd yn prif-ffrydio'r Gymraeg i mewn i holl bolisïau'r Heddlu drwy lunio rhaglen prif-ffrydio polisïau strwythuredig i'w gwblhau yn ystod oes y cynllun hwn. **PI 1** % o bolisïau a mentrau newydd a diwygiedig sydd wedi prif-ffrydio'r iaith Gymraeg **Targed** Cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg fel iaith busnes mewnol. **PI 2** % o gyfarfodydd rheoli (a gadeirir gan aelod ACPO) yn Gymraeg.
Darparu Gwasanaeth **Targed** Bod Heddluoedd yn cyfleu gofynion y Cynllun Iaith yn glir wrth sicrhau bod yr iaith yn rhan annatod o'r gwasanaeth a ddarperir gan eraill a bod cydymffurfiad â hyn yn cael ei fonitro gan gynnwys (i) holl sefydliadau trydydd parti (ii) partneriaethau a (iii) wrth ddarparu nawdd. **Cyhoeddi Gwybodaeth ar Berfformiad** **PI 3** a) % o'r holl sefydliadau trydydd parti a gafodd eu monitro ac sy'n darparu gwasanaethau yn unol â gofynion y Cynllun Iaith, b) % o'r holl bartneriaethau a gafodd eu monitro ac sy'n darparu gwasanaethau yn unol â gofynion y Cynllun Iaith, c) % o sefydliadau/cyrff sy'n derbyn nawdd gan yr heddlu a gafodd eu monitro ac sy'n darparu gwasanaethau yn unol â gofynion y Cynllun Iaith

Ymdrin â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg

Targed
Dewis iaith mewn hyfforddiant a datblygiad.

PI 4 % o'r cyrsiau hyfforddi a gynhaliwyd drwy gyfrwng y Gymraeg.

Targed
Bydd yr holl staff newydd sy'n ymuno â'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig (Sector Cymru) yn gallu dangos sgiliau sylfaenol Lefel 1 yn yr iaith Gymraeg.

PI 5 % o'r staff newydd sy'n gallu dangos gallu ar Lefel 1.

Gweithredu a Monitro'r Cynllun

Targed
Cynyddu'r nifer o staff yn y gweithle sy'n gallu ac yn barod i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn cwrdd â'r angen i ddarparu gwasanaethau o ansawdd.

PI 6 (a) % o staff sydd wedi derbyn hyfforddiant yn Gymraeg hyd at lefel cymhwyster cydnabyddedig a/neu hyd at y lefel briodol ar fframwaith gallu iaith Gymraeg yr Heddlu.

PI 7 % o staff sy'n gallu siarad Cymraeg
- Yn ôl ardal / adran
- Yn ôl rheng / swydd / graddfa.

PI 8 Cymhariaeth rhwng y % o siaradwyr Cymraeg yn y gymuned a'r % a recriwtwyd i weithio yn yr Heddlu.

- Yn ôl heddlu, rolau staff yr heddlu, gwirfoddolwyr a theulu estynedig yr heddlu yn sector Cymru.

Targed
Diffinio lefel benodol o ran gallu yn yr iaith Gymraeg i bob swydd yn sector Cymru sy'n gymesur â'u cyswllt uniongyrchol gyda'r cyhoedd.(Lefel 1 – 5)

PI 8 % o'r holl swyddi yn sector Cymru sydd â chyswllt uniongyrchol gyda'r cyhoedd sy'n cydymffurfio â'r lefel gallu yn yr iaith Gymraeg a bennwyd (lefel 1 – 5).

PI 9	% o'r cwynion mewn perthynas â'r modd y gweithredir y Cynllun o ganlyniad i newid mewn polisi/gweithdrefn

Gofynion Statudol Eraill

Cyhoeddusrwydd – Adran 12(2)(b) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

Targed
Hyrwyddo gwasanaethau penodol a ddarperir yn Gymraeg fel bod siaradwyr Cymraeg â dewis i'w defnyddio.

PI 10 % o ddefnydd o'r gwasanaethau iaith Gymraeg penodol.

a) Llinell leithoedd Cymraeg
b) Swyddogion Heddlu a recriwtir sy'n dewis cael cyfweliad terfynol yn Gymraeg

Safonau Gwasanaeth Iaith Gymraeg
Ymdrin â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg **Datganiad** Bydd Heddluoedd yn gweithio tuag at sicrhau bod dewis iaith yn cael ei warantu yn y prosesau recriwtio. O ran recriwtio swyddogion heddlu a Swyddogion Cefnogi Cymunedau'r Heddlu, mae heddluoedd yn disgwyl canlyniad y drafodaeth gyda'r Swyddfa Gartref a chorff hyfforddi gwasanaeth cenedlaethol yr heddlu, y National Police Improvements Agency. **Datganiad** Bydd pob aelod newydd o staff sy'n ymuno â'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig (Sector Cymru) ar ôl …… yn gallu dangos sgiliau sylfaenol yn yr iaith Gymraeg (Lefel 1) erbyn diwedd eu cyfnod prawf.
Delwedd Gyhoeddus yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig **Cyhoeddi Gwybodaeth ar Berfformiad** **Datganiad** Bydd pob arwydd corfforaethol allanol a mewnol (gan gynnwys pob arwydd dros dro) yn cael ei godi'n unol â'r mesurau sydd yn y Cynllun Iaith.
Gweithredu a Monitro'r Cynllun **Datganiad** Bydd pawb newydd sy'n ymuno â'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, Sector Cymru, yn derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith fel rhan o'u rhaglen gyflwyno.

Atodiad C

Sgiliau cyfathrebu yn Gymraeg

1. Fframwaith Newydd.

1.1. Elfennau

- Dangos sensitifrwydd ac ymwybyddiaeth ieithyddol
- Dangos parodrwydd i ddysgu Cymraeg a'i defnyddio yn y gweithle
- Deall Cymraeg
- Hwyluso dewis iaith i'r cwsmer
- Siarad Cymraeg
- Ysgrifennu Cymraeg (lle bo'n briodol)
- Gallu a pharodrwydd i ddefnyddio'r Gymraeg wrth weithio gyda'r cyhoedd

1.2. Bydd y lefelau yn dangos gallu presennol ar amrediad o lefel 0 (dim sgiliau iaith Gymraeg) i lefel 5 'hyfedr' (medrus, hyderus ac yn barod i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'r cyhoedd wrth gyflawni'u dyletswyddau).

2. Egluro'r Fframwaith Gallu:

Caiff y lefelau eu diffinio gan gyfres o ddatganiadau 'Yn gallu' sy'n:

- Diffinio lefelau gallu o ran yr hyn y gall defnyddwyr yr iaith fel arfer ei wneud ar bob lefel o'r fframwaith
- Ei gwneud yn haws i ddefnyddwyr ddeall yr hyn y mae pob lefel yn ei olygu o ran yr hyn y gall defnyddwyr yr iaith ei wneud mewn gwirionedd.

Rhai ffyrdd o ddefnyddio Cymraeg yn yr Heddlu	**Lefel 1**	**Lefel 2**	**Lefel 3**	**Lefel 4**	**Lefel 5**

Mewn swyddfa	Yn gallu dweud enwau lleoedd/enwau cyntaf Cymraeg neu arwyddion Cymraeg yn gywir. Yn gallu adnabod adrannau / lleoliadau / rhengoedd yn Gymraeg. Yn gallu cyfarch a chyflwyno eraill yn Gymraeg	Yn gallu deall hanfod sgwrs yn Gymraeg. Yn gallu cyfleu gwybodaeth syml e.e. tasgau gweinyddol neu arferol syml	Yn gallu deall llawer yn y swyddfa neu mewn cyfarfodydd. Yn gallu cymryd negeseuon sydd yn debygol o fod angen talu sylw iddynt yn ystod diwrnod gwaith arferol a'u pasio ymlaen.	Yn gallu cyfrannu'n effeithiol mewn cyfarfodydd ym maes gwaith yr unigolyn ac yn gallu dadlau o blaid neu yn erbyn achos.	Yn gallu cyfweld ymgeiswyr Cymraeg am swyddi ac asesu pa mor addas ydynt.
Dyletswyddau Swyddog Heddlu	Yn gallu dangos cwrteisi ieithyddol drwy gychwyn a therfynu sgwrs. Yn gallu rhoi, a derbyn manylion personol. Yn gallu dweud enwau lleoedd / enwau cyntaf neu arwyddion Cymraeg yn gywir.	Yn gallu deall hanfod cais oddi wrth y cyhoedd ac ymateb i geisiadau syml. Yn gallu rhoi a derbyn cyfarwyddiadau.	Yn gallu sgwrsio'n rhannol yn Gymraeg ond yn troi i Saesneg mewn trafodaethau ac i roi gwybodaeth fanwl. Yn gallu disgrifio pobl a lleoliadau.	Yn gallu ymdrin â'r cyhoedd yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd yn Gymraeg ond yn troi i Saesneg wrth ddefnyddio terminoleg plismona/ technegol.	Yn gallu ymdrin yn effeithiol ag ymholiadau cymhleth oddi wrth y cyhoedd neu gyda gwrthdaro yn Gymraeg. Yn gallu cyfweld neu gwestiynu yn Gymraeg ar gyfer ymchwiliad.
Cownter Gorsaf Heddlu / Derbynfa / Dros y Ffôn	Yn gallu darparu cyfarchiad dwyieithog sy'n briodol i'r lleoliad. Yn gallu cyfarch ymwelwyr a darparu dewis iaith.	Yn gallu deall ceisiadau am gymorth ac yn ymateb yn Gymraeg i geisiadau syml. Yn gallu defnyddio'r Gymraeg i drosglwyddo galwadau.	Yn gallu ymateb i ymholiadau cyffredinol dros y ffôn ac wyneb yn wyneb. Yn gallu cymryd manylion neu wneud nodyn o sgwrs Gymraeg	Yn gallu ymdrin yn effeithiol ag ymholiadau. Yn gallu deall y gwahaniaethau mewn tafodiaith.	Yn gallu ymdrin ag ymholiadau neu gwynion cymhleth neu sensitif gan y cyhoedd ac ymdrin yn hyderus â chwestiynau gelyniaethus.

			.		
Cyfarfodydd Cyhoeddus / Siarad gyda'r Cyfryngau	Yn gallu agor a chau cyfarfodydd a chroesawu'r rhai sy'n bresennol yn ddwyieithog.	Yn gallu cyflwyno eich hun ac eraill yn ôl enw, rheng, rôl, lleoliad / sefydliad. Yn gallu cyfrannu at gyfarfod yn rhannol yn Gymraeg	Yn gallu sgwrsio neu gyflwyno'n rhannol mewn Cymraeg ond yn troi i Saesneg wrth drafod manylion busnes craidd, wrth ateb cwestiynau neu ddefnyddio gwybodaeth gymhleth.	Yn gallu cadeirio cyfarfod ac ymateb i gwestiynau yn Gymraeg. Yn gallu disgrifio sefyllfa neu ddigwyddiad yn Gymraeg , ond yn troi i Saesneg ar gyfer termau technegol neu blismona.	Yn gallu darparu cyflwyniadau yn Gymraeg. Yn gallu ateb cwestiynau cymhleth neu elyniaethus yn Gymraeg i'r graddau y mae ganddo ef/ganddi hi'r wybodaeth arbenigol angenrheidiol.
Ysgrifennu	Yn gallu ysgrifennu cais syml arferol at gydweithiwr , fel 'Ga'i ….. os gwelwch yn dda?'.	Yn gallu ysgrifennu cais byr i gydweithiwr neu gyswllt allanol adnabyddedig.	Yn gallu ysgrifennu memos, negeseuon e-bost ac ymdrin â cheisiadau arferol mewnol anffurfiol	Gyda chymorth golygyddol, yn gallu ysgrifennu llythyrau, negeseuon e-bost a phosteri busnes ar gyfer cwsmeriaid allanol..	Yn gallu ysgrifennu adroddiadau a chyflwyniadau a chymryd nodiadau llawn a chywir mewn cyfarfod.

Cynllun Gweithredu: Yn Gweithio Tuag At Sefydliad Dwyieithog

1. Darparu Gwasanaeth Dwyieithog

Cam Gweithredu	**Dyddiad Targed**	**Cyfrifoldeb**
1a Yr Heddlu i sicrhau cydymffurfiaeth lawn â gofynion y cynllun hwn.	Ebrill 2010 a'i fonitro bob blwyddyn (yn ystod mis Ionawr bob blwyddyn)	Prif Swyddogion Penaethiaid Ardal Penaethiaid Adrannau Pennaeth y Tîm Cydraddoldebau ac Amrywiaeth Pennaeth Sector Cymru Cefnogwyr Iaith Gymraeg Lleol
1b Sicrhau bod polisïau newydd a pholisïau sy'n cael eu hadolygu'n flynyddol yn cynnwys cymalau perthnasol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg. Monitro i sicrhau bod polisïau yn cydymffurfio gyda'r Cynllun Iaith Gymraeg.	Ebrill 2010 a'i fonitro bob blwyddyn (yn ystod mis Ionawr bob blwyddyn)	Pennaeth yr Uned Cydlynu Cynllunio Strategol a Pholisi Pennaeth yr Adran Arweinyddiaeth ac Amrywiaeth
1c Prosiectau i ystyried anghenion y cyhoedd sy'n siarad Cymraeg yn ystod cyfnod datblygu brîff prosiect. Cynnwys cymalau priodol ym manylion y prosiectau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cynllun Iaith Gymraeg. Monitro cydymffurfiaeth â'r Cynllun Iaith Gymraeg drwy gydol oes y prosiect.	Ebrill 2010 a'i fonitro bob blwyddyn (yn ystod mis Ionawr bob blwyddyn)	Rheolwyr Prosiect a Pholisi
1d Grŵp y Prif Swyddogion i enwebu aelod o Dîm Rheoli Pencadlys yr Heddlu i weithredu fel cydlynydd lleol ar faterion Iaith Gymraeg er mwyn hyrwyddo mwy o ddefnydd o'r iaith Gymraeg yn y timau amrywiol ac i gwblhau adroddiadau monitro'n lleol. Pennaeth Ardal	Ebrill 2010 a'i fonitro bob blwyddyn (yn ystod mis Ionawr bob blwyddyn)	Staff Pencadlys yr Heddlu Pennaeth Ardal Cymru a Gorllewin Lloegr

Cymru a Gorllewin Lloegr i enwebu aelod o'r tîm rheoli i weithredu fel cydlynydd lleol ar faterion Iaith Gymraeg yn y timau amrywiol ac i gwblhau adroddiadau monitro'n lleol		
1e Sicrhau bod copi diweddar o'r Cynllun Iaith Gymraeg a'r canllawiau gweithredu newydd ar gael i'r holl staff drwy sianelau priodol, gan gynnwys Mewnrwyd yr Heddlu.	Medi 2010	Pennaeth yr Adran Arweinyddiaeth ac Amrywiaeth Pennaeth Ardal Cymru a Gorllewin Lloegr
1f Sicrhau bod rhestrau cyfredol o siaradwyr Cymraeg ar gael ar gyfer defnydd mewnol er mwyn ymateb i geisiadau am wasanaeth iaith Gymraeg.	Mehefin 2009 a'i fonitro bob blwyddyn (yn ystod mis Ionawr bob blwyddyn)	Pennaeth Sector Cymru
1g Hyrwyddo mwy o ddefnydd o'r iaith Gymraeg yn y gweithle, fel iaith fusnes ac iaith gyfathrebu, lle bo'n ymarferol, ac annog siaradwyr Cymraeg i gefnogi dysgwyr.	Mehefin 2009 a'i fonitro bob blwyddyn (yn ystod mis Ionawr bob blwyddyn)	Pennaeth Sector Cymru Pennaeth yr Adran Arweinyddiaeth ac Amrywiaeth

2. Safon Gwasanaethau Cymraeg

Cam Gweithredu	**Dyddiad Targed**	**Cyfrifoldeb**
2a Sicrhau gwasanaeth o safon gyfartal yn y ddwy iaith yn Sector Cymru	Ebrill 2010 a'i fonitro bob blwyddyn (yn ystod mis Ionawr bob blwyddyn)	Pennaeth Ardal Cymru a Gorllewin Lloegr Penaethiaid Adrannau Pennaeth Sector Cymru
2b Annog siaradwyr Cymraeg i ddrafftio dogfennau/llythyrau, ayb, yn Gymraeg ac, os oes angen, anfon fersiynau drafft i uned gyfieithu Heddlu'r Swyddfa Gartref i'w gwirio a'u golygu/prawfddarllen.	Mehefin 2009 a'i fonitro bob blwyddyn (yn ystod mis Ionawr bob blwyddyn)	Cefnogwyr Iaith Gymraeg Lleol Pennaeth Sector Cymru Pennaeth yr Adran Arweinyddiaeth ac Amrywiaeth
2c Annog staff sy'n siarad Cymraeg, neu staff sy'n dysgu Cymraeg, i wisgo bathodyn bychan yn dangos eu gallu i siarad Cymraeg i'r cyhoedd.	Ebrill 2010 a'i fonitro bob blwyddyn (yn ystod mis Ionawr bob blwyddyn)	Cefnogwyr Iaith Gymraeg Lleol Pennaeth Sector Cymru Pennaeth yr Adran Arweinyddiaeth ac Amrywiaeth
2d Annog Heddluoedd eraill yng Nghymru i rannu arferion da ac i gydweithio ar brosiectau er budd y gwahanol Gynlluniau Iaith Gymraeg a mynychu Grŵp Iaith Gymraeg Heddluoedd Cymru gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg.	Monitro bob chwarter	Pennaeth Ardal Cymru a Gorllewin Lloegr Pennaeth yr Adran Arweinyddiaeth ac Amrywiaeth

3. Darparu gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd

Cam Gweithredu	**Dyddiad Targed**	**Cyfrifoldeb**
3a Cadw cofnod cyfredol o enwau'r rhai sydd wedi mynegi dymuniad i dderbyn gohebiaeth ysgrifenedig yn Gymraeg.	Mehefin 2009 a'i fonitro bob blwyddyn (yn ystod mis Ionawr bob blwyddyn)	Pennaeth Sector Cymru Arolygwyr Sector Cymru
3b Sicrhau bod manylion cyswllt staff Sector Cymru yn gwbl ddwyieithog.	Medi 2009 a'i fonitro bob blwyddyn (yn ystod mis Ionawr bob blwyddyn)	Pennaeth Ardal Cymru a Gorllewin Lloegr Pennaeth Sector Cymru Cydlynydd Iaith Gymraeg yr Heddlu
3c Sicrhau bod yr holl fanylion safonol sy'n ymddangos ar bapurau pennawd neu ar negeseuon ffacs a ddefnyddir ar gyfer gohebiaeth swyddogol yr Heddlu yn Sector Cymru yn ddwyieithog.	Mehefin 2009 a'i fonitro bob blwyddyn (yn ystod mis Ionawr bob blwyddyn)	Pennaeth Ardal Cymru a Gorllewin Lloegr Pennaeth Sector Cymru Cydlynydd Iaith Gymraeg yr Heddlu
3d Codi ymwybyddiaeth ymysg staff ynglŷn â sut i wneud defnydd llawn o wasanaethau'r contractwr cyfieithu cymeradwyedig.	Mehefin 2009 a'i fonitro bob blwyddyn (yn ystod mis Ebrill bob blwyddyn)	Pennaeth Caffael Pennaeth yr Adran Arweinyddiaeth ac Amrywiaeth
3e Paratoi a Gweithredu cynllun i ddatblygu cynnwys Cymraeg ar wefan yr HTP.	Medi 2009 a'i fonitro bob blwyddyn (yn ystod mis Ebrill bob blwyddyn)	Pennaeth Ardal Cymru a Gorllewin Lloegr

4. Cyfathrebu dros y ffôn

Cam Gweithredu	**Dyddiad Targed**	**Cyfrifoldeb**
4a Darparu canllawiau a threfnu hyfforddiant lle bo angen ar gyfer staff yr ystafell reoli ar sut i ymateb yn briodol i alwadau ffôn a monitro safon y gwasanaeth.	Ebrill 2010 a'i fonitro bob blwyddyn (yn ystod mis Ionawr bob blwyddyn)	Pennaeth Ystafell Reoli'r Heddlu Birmingham
4b Sicrhau bod staff sy'n ymateb yn uniongyrchol i alwadau ffôn allanol yn ymdrin â'r galwadau hynny yn unol â'r Cynllun Iaith Gymraeg ac unrhyw ganllawiau perthnasol eraill.	Ebrill 2010 a'i fonitro bob blwyddyn (yn ystod mis Ionawr bob blwyddyn)	Pennaeth Ystafell Reoli'r Heddlu Birmingham
4c Trafod gyda BIG a chytuno ar drefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau ffôn yn ddwyieithog.	Medi 2009	Pennaeth Ardal Cymru a Gorllewin Lloegr

5. Cyfarfodydd Cyhoeddus

Cam Gweithredu	**Dyddiad Targed**	**Cyfrifoldeb**
5a Sicrhau bod staff sy'n gyfrifol am gynrychioli'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig mewn unrhyw gyfarfodydd neu gyflwyniadau allanol yn Sector Cymru yn cynnig dewis o ran darparu'r gwasanaeth yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog; neu'n hwyluso presenoldeb cynrychiolydd a all ymateb yn newis iaith y pwyllgor/sefydliad/grŵp sydd wedi estyn y gwahoddiad.	Medi 2009 a'i fonitro bob blwyddyn (yn ystod mis Ionawr bob blwyddyn)	Pennaeth Ardal Cymru a Gorllewin Lloegr Pennaeth Sector Cymru Arolygwyr y Sector
5b Agor bob cyfarfod neu gynhadledd yng Nghymru gyda chyfarchiad dwyieithog, gan dynnu sylw, lle bo'n berthnasol, at y ffaith fod gwasanaethau cyfieithu ar gael a gwahodd y rhai hynny sy'n bresennol i gyfrannu yn eu dewis iaith.	Ebrill 2010 a'i fonitro bob blwyddyn (yn ystod mis Ionawr bob blwyddyn)	Pennaeth Ardal Cymru a Gorllewin Lloegr Pennaeth Sector Cymru Arolygwyr y Sector

6. Wyneb Cyhoeddus yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig

Cam Gweithredu	**Dyddiad Targed**	**Cyfrifoldeb**
6a Sicrhau bod pob arwydd a hysbysiad yn ddwyieithog a bod y fersiwn Cymraeg yn ymddangos naill ai uwch ben neu i'r chwith o'r fersiwn Saesneg. Sicrhau bod unrhyw destun Cymraeg yn cael ei wirio gan y gwasanaethau cyfieithu cymeradwyedig.	Ebrill 2009 a'i fonitro bob blwyddyn (yn ystod mis Ionawr bob blwyddyn)	Pennaeth Ardal Cymru a Gorllewin Lloegr Pennaeth Ystadau Pennaeth Sector Cymru Cydlynydd Iaith Gymraeg yr Heddlu

7. Cyhoeddiadau a Defnyddiau Ysgrifenedig

Cam Gweithredu	**Dyddiad Targed**	**Cyfrifoldeb**
7a Annog staff sydd â chyfrifoldeb am gynhyrchu eitemau ar gyfer defnydd mewnol yn Sector Cymru i wneud mwy o ddefnydd o'r iaith Gymraeg fel iaith busnes mewnol ac i fanteisio i'r eithaf ar unrhyw gyfleoedd i gynnwys y ddwy iaith.	Ebrill 2010 a'i fonitro bob blwyddyn (yn ystod mis Ionawr bob blwyddyn)	Pennaeth Ardal Cymru a Gorllewin Lloegr Pennaeth Sector Cymru Cydlynydd Iaith Gymraeg yr Heddlu

8. Datganiadau i'r Wasg

Cam Gweithredu	**Dyddiad Targed**	**Cyfrifoldeb**
8a Sicrhau bod cofnod cyfredol yn cael ei gadw o ddewis iaith cynrychiolwyr y wasg a'r cyfryngau a bod swyddogion cyswllt y cyfryngau yn Ardal Cymru a Gorllewin Lloegr yn cael gwybod am hyn.	Medi 2009 a'i fonitro bob blwyddyn (yn ystod mis Ionawr bob blwyddyn)	Pennaeth Cyfryngau a Marchnata'r Heddlu Rheolwr Cyfryngau Ardal Cymru a Gorllewin Lloegr
8b Dynodi a hyfforddi siaradwyr Cymraeg hyderus i gynrychioli'r Heddlu mewn cyfweliadau gyda'r cyfryngau Cymraeg.	Medi 2009 a'i fonitro bob blwyddyn (yn ystod mis Ionawr bob blwyddyn)	Pennaeth Ardal Cymru a Gorllewin Lloegr Pennaeth Cyfryngau a Marchnata'r Heddlu Pennaeth Sector Cymru Rheolwr Cyfryngau Ardal Cymru a Gorllewin Lloegr

9. Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysebion recriwtio

Cam Gweithredu	**Dyddiad Targed**	**Cyfrifoldeb**
9a Sicrhau bod unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos ar wefan yr Heddlu ynglŷn â Sector Cymru yn ddwyieithog.	Medi 2009 a'i fonitro bob blwyddyn (yn ystod mis Ionawr bob blwyddyn)	Pennaeth Cyfryngau a Marchnata'r Heddlu Pennaeth Ardal Cymru a Gorllewin Lloegr Pennaeth Sector Cymru
9b Annog staff sy'n gyfrifol am baratoi ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd yn Sector Cymru i gynllunio'n ddwyieithog ac ystyried yr angen i ddangos sensitifrwydd ieithyddol a diwylliannol wrth ddylunio.	Medi 2009 a'i fonitro bob blwyddyn (yn ystod mis Ionawr bob blwyddyn)	Pennaeth Cyfryngau a Marchnata'r Heddlu Pennaeth Ardal Cymru a Gorllewin Lloegr Pennaeth Sector Cymru Arolygwyr y Sector
9c Annog unrhyw gorff neu grŵp sy'n ymuno â'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig mewn partneriaeth i gydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg	Ebrill 2009 a'i fonitro bob blwyddyn (yn ystod mis Ionawr bob blwyddyn)	Pennaeth Ardal Cymru a Gorllewin Lloegr Pennaeth Sector Cymru Arolygwyr y Sector

10. Gweithredu'r Cynllun

Cam Gweithredu	**Dyddiad Targed**	**Cyfrifoldeb**
10a Datblygu strategaeth sgiliau dwyieithog ar gyfer staff newydd a staff presennol Sector Cymru sy'n cynnwys cynllunio a darparu hyfforddiant iaith briodol i lenwi'r bylchau yn sgiliau ieithyddol ein staff sy'n cyflawni rolau perthnasol lle mae angen gallu i siarad Cymraeg.	Ebrill 2009 a'i fonitro bob blwyddyn (yn ystod mis Ionawr bob blwyddyn)	Pennaeth Ardal Cymru a Gorllewin Lloegr Pennaeth Dysgu a Datblygu Pennaeth Arweinyddiaeth ac Amrywiaeth
10b Targedu recriwtio staff Cymraeg neu ddysgwyr sydd â'r sgiliau priodol eraill sy'n ofynnol ar gyfer cyflawni dyletswyddau'r swydd (sy'n cydymffurfio â'r fframwaith cyfreithiol)	Medi 2009 a'i fonitro bob blwyddyn (yn ystod mis Ionawr bob blwyddyn)	Pennaeth Adnoddau Dynol Ymgynghorwyr Adnoddau Dynol Pennaeth Recriwtio'r Heddlu
10c Sicrhau buddsoddiad priodol mewn ymgyrchoedd i recriwtio mwy o siaradwyr Cymraeg a dysgwyr Cymraeg a bod staff ac adnoddau digonol ar gael i gyflawni ein nodau.	Medi 2009 a'i fonitro bob blwyddyn (yn ystod mis Ionawr bob blwyddyn)	Pennaeth Adnoddau Dynol Ymgynghorwyr Adnoddau Dynol Pennaeth Recriwtio'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig
10d Ymchwilio i ffyrdd o ymestyn y ddarpariaeth o ran hyfforddiant ymwybyddiaeth ieithyddol a sensitifrwydd ieithyddol ar gyfer staff priodol fel rhan o unrhyw gwrs hyfforddi, yn arbennig cyrsiau hyfforddi ar gyfer swyddi ble mae'r deilydd mewn cysylltiad rheolaidd â'r cyhoedd.	Ebrill 2009 a'i fonitro bob blwyddyn (yn ystod mis Ionawr bob blwyddyn)	Pennaeth Dysgu a Datblygu Pennaeth Arweinyddiaeth ac Amrywiaeth
10e Sicrhau bod pob ystyriaeth ieithyddol yn cael ei phrif-ffrydio i brosesau a gweithdrefnau adnoddau dynol.	Ebrill 2010 a'i fonitro bob blwyddyn (yn ystod mis Ionawr bob blwyddyn)	Pennaeth Adnoddau Dynol
10f Sicrhau bod Rheolwyr Adnoddau Dynol yn ystyried	Ebrill 2010 a'i fonitro	Pennaeth Adnoddau Dynol

anghenion ieithyddol swyddi a lleoliadau wrth bennu pa staff sy'n briodol ar gyfer unrhyw swydd benodol.	bob blwyddyn (yn ystod mis Ionawr bob blwyddyn)	
10g Sicrhau bod hyfforddiant iaith Gymraeg yn cael y statws priodol, a bod prosesau dynodi anghenion hyfforddiant staff yn cael eu defnyddio i'w llawn botensial wrth ddewis a chefnogi staff, datblygu neu gyflwyno eu sgiliau iaith Gymraeg yn unol ag anghenion y sefydliad.	Medi 2009 a'i fonitro bob blwyddyn (yn ystod mis Ionawr bob blwyddyn)	Pennaeth Adnoddau Dynol
10h Annog pawb nad ydynt yn siarad Cymraeg yn Sector Cymru sydd mewn cysylltiad gyda'r cyhoedd i ddatblygu gallu sylfaenol yn yr iaith Gymraeg er mwyn cryfhau ein gallu i ddangos cwrteisi ieithyddol.	Medi 2009 a'i fonitro bob blwyddyn (yn ystod mis Ionawr bob blwyddyn)	Pennaeth Ardal Cymru a Gorllewin Lloegr Pennaeth Sector Cymru Arolygwyr Sector Cymru
10i Cynnig dewis iaith i ymgeiswyr am swyddi a gwneud darpariaeth briodol iddynt yn y prosesau dethol.	Medi 2009 a'i fonitro bob blwyddyn (yn ystod mis Ionawr bob blwyddyn)	Pennaeth Adnoddau Dynol Pennaeth Recriwtio Swyddogion Heddlu Rheolwyr Adnoddau Dynol

11. Trefniadau Gweinyddol

Cam Gweithredu	**Dyddiad Targed**	**Cyfrifoldeb**
11a Sicrhau bod unrhyw gynlluniau ar gyfer datblygu prosiectau/polisïau a gyflwynir i'r Prif Swyddogion a/neu'r Awdurdod i'w cymeradwyo yn nodi fod y cynllun/polisi yn cydymffurfio gyda'r Cynllun Iaith Gymraeg.	Medi 2009 a'i fonitro bob blwyddyn (yn ystod mis Ionawr bob blwyddyn)	Pennaeth yr Uned Cydlynu Cynllunio Strategol a Pholisi

12. Llyfryn Gwybodaeth

Cam Gweithredu	**Dyddiad Targed**	**Cyfrifoldeb**
12a Darparu cyngor a chanllawiau i staff ar eu cyfrifoldebau dan y Cynllun Iaith Gymraeg diwygiedig.	Medi 2009 a'i fonitro bob blwyddyn (yn ystod mis Ionawr bob blwyddyn)	Pennaeth Ardal, Ardal Cymru a Gorllewin Lloegr

13. Gwasanaethau a ddarperir ar ran yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig gan bartïon eraill

Cam Gweithredu	**Dyddiad Targed**	**Cyfrifoldeb**
13a Staff i gydlynu unrhyw brosiectau ar y cyd ag asiantaethau eraill a sicrhau bod y prosiectau yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg hwn.	Medi 2009 a'i fonitro bob blwyddyn (yn ystod mis Ionawr bob blwyddyn)	Rheolwyr Prosiect

14. Polisïau a Gweithdrefnau

Cam Gweithredu	**Dyddiad Targed**	**Cyfrifoldeb**
14a Sicrhau bod unrhyw bolisïau newydd a pholisïau sy'n destun adolygiad blynyddol yn nodi eu bod yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg a bod ffurflen yn cael ei llenwi i'r amcan hwn fel rhan o'r broses ardystio.	Medi 2010 a'i fonitro bob blwyddyn (yn ystod mis Ionawr bob blwyddyn)	Pennaeth yr Uned Cydlynu Cynllunio Strategol a Pholisi

15. Llyfryn Gwybodaeth

Cam Gweithredu	**Dyddiad Targed**	**Cyfrifoldeb**
15a Paratoi adroddiadau rheolaidd i Grŵp Amrywiaeth yr Heddlu ar sut mae Ardal Cymru a Gorllewin Lloegr yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg.	Medi 2009 a'i fonitro bob blwyddyn (yn ystod mis Ionawr bob blwyddyn)	Pennaeth Ardal Cymru a Gorllewin Lloegr
15b Monitro cydymffurfiad Sector Cymru ac adolygu cynnydd mewn perthynas â'r Cynllun yn rheolaidd	Medi 2009 a'i fonitro bob blwyddyn (yn ystod mis Ionawr bob blwyddyn)	Pennaeth Ardal Cymru a Gorllewin Lloegr Pennaeth Sector Cymru
15c Datblygu proses i sicrhau bod gweithdrefnau a gweithrediadau yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg i gynnwys enwebu aelod o Ardal Cymru a Gorllewin Lloegr i weithredu fel Cefnogwr yr Iaith Gymraeg ar gyfer y Cynllun Iaith Gymraeg. Yr unigolyn hwn i fod yn gyfrifol am gwblhau a dychwelyd yr adroddiadau monitro.	Medi 2009 a'i fonitro bob blwyddyn (yn ystod mis Ionawr bob blwyddyn)	Pennaeth Ardal Cymru a Gorllewin Lloegr
15d Sicrhau bod unrhyw ymchwil i foddhad y cyhoedd yn Sector Cymru o ran y gwasanaeth a ddarperir gan yr heddlu yn cynnwys cyfeiriad at a ydynt yn derbyn gwasanaeth yn Gymraeg ai peidio.	Medi 2009 a'i fonitro bob blwyddyn (yn ystod mis Ionawr bob blwyddyn)	Uned Cydlynu Cynllunio Strategol a Pholisi'r Heddlu

16. Ymdrin ag aelodau o'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg

Cam Gweithredu	**Dyddiad Targed**	**Cyfrifoldeb**
16a Prif-ffrydio'r iaith Gymraeg ac ystyriaethau o ran yr iaith Gymraeg yn y ddwy iaith swyddogol i systemau a phrosesau sicrhau ansawdd yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn Sector Cymru.	Medi 2009 a'i fonitro bob blwyddyn (yn ystod mis Ionawr bob blwyddyn)	Pennaeth Ardal Cymru a Gorllewin Lloegr

17. Staffio

Cam Gweithredu	**Dyddiad Targed**	**Cyfrifoldeb**
17a Monitro cydymffurfiad Sector Cymru ag amcanion y Cynllun Iaith Gymraeg a pharatoi a darparu diweddariadau priodol ar y sefyllfa staffio i Grŵp Amrywiaeth yr Heddlu.	Medi 2009 a'i fonitro bob blwyddyn (yn ystod mis Ionawr bob blwyddyn)	Pennaeth Ardal Cymru a Gorllewin Lloegr

18. Amserlen

Cam Gweithredu	**Dyddiad Targed**	**Cyfrifoldeb**
18a Cynnwys cyflawni targedau'r Cynllun Iaith Gymraeg fel rhan o'r targedau corfforaethol a chyfeirio at ddatblygiadau a chyflawniadau mewn perthynas â'r Cynllun Iaith Gymraeg yn yr Adroddiad Blynyddol a chrynodebau perfformiad cyhoeddus.	Ionawr 2010 a'i fonitro bob blwyddyn (yn ystod mis Ionawr bob blwyddyn)	ACPO

19. Asiantau a Chontractau

Cam Gweithredu	**Dyddiad Targed**	**Cyfrifoldeb**
19a Sicrhau bod unrhyw wasanaethau a brynir/a reolir gan asiantau a chontractwyr allanol yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg lle bo'n briodol.	Medi 2009 a'i fonitro bob blwyddyn (yn ystod mis Ionawr bob blwyddyn)	Pennaeth Caffael

20. Sylwadau a chwynion am y Cynllun Iaith Gymraeg

Cam Gweithredu	**Dyddiad Targed**	**Cyfrifoldeb**
20a Sicrhau bod unrhyw sylwadau/cwynion oddi wrth y cyhoedd am safon y gwasanaeth Cymraeg yn cael eu dwyn i sylw'r Pennaeth Arweinyddiaeth ac Amrywiaeth ym Mhencadlys yr Heddlu.	Ebrill 2009 a'i fonitro bob blwyddyn (yn ystod mis Ionawr bob blwyddyn)	Pennaeth Safonau Proffesiynol

21. Cyhoeddusrwydd i'r Cynllun Iaith Gymraeg ac argaeledd gwasanaethau dwyieithog.

Cam Gweithredu	**Dyddiad Targed**	**Cyfrifoldeb**
21a Sicrhau bod gwybodaeth am y Cynllun Iaith Gymraeg i'w gweld ar y wefan gyhoeddus a threfnu ymgyrchoedd priodol i godi ymwybyddiaeth o ran y ddarpariaeth hon.	Medi 2009 a'i fonitro bob blwyddyn (yn ystod mis Ionawr bob blwyddyn)	Pennaeth Cyfryngau a Marchnata Pennaeth Arweinyddiaeth ac Amrywiaeth
21b Sicrhau bod gwybodaeth am y Cynllun Iaith Gymraeg diwygiedig yn ogystal â chyngor a canllawiau ar gael i staff ar y fewnrwyd ac ar ffurfiau priodol eraill.	Medi 2009 a'i fonitro bob blwyddyn (yn ystod mis Ionawr bob blwyddyn)	Pennaeth Cyfryngau a Marchnata Pennaeth Arweinyddiaeth ac Amrywiaeth
21c Arddangos arwyddion ym mannau cyhoeddus Sector Cymru sy'n hysbysebu bod gwasanaeth dwyieithog ar gael.	Medi 2009 a'i fonitro bob blwyddyn (yn ystod mis Ionawr bob blwyddyn)	Pennaeth Ardal Cymru a Gorllewin Lloegr Pennaeth Sector Cymru Arolygwyr y Sector

22. Adrodd

Cam Gweithredu	**Dyddiad Targed**	**Cyfrifoldeb**
22a Paratoi adroddiadau monitro ar y Cynllun Iaith Gymraeg i'r sefydliad ac i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.	Bob blwyddyn	Pennaeth Ardal Cymru a Gorllewin Lloegr